**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (Eithrio Treuliau Diogelwch) (Diwygio) (Cymru) 2026**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Etholiadau ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (Eithrio Treuliau Diogelwch) (Diwygio) (Cymru) 2026. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Jayne Bryant AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**

**10 Chwefror 2026**

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1. Mae Gorchymyn Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (Eithrio Treuliau Diogelwch) (Diwygio) (Cymru) 2026 (“y Gorchymyn Eithrio”) yn diwygio paragraff 13A o Atodlen 4A i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (“Deddf 1983”).

2. Mae hyn yn sicrhau na fydd ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol, yn rhan o’u treuliau etholiadol, yn gorfod cyfrif am dreuliau rhesymol yr eir iddynt wrth ddarparu ar gyfer eu diogelwch personol a diogelu eu heiddo. Mae hyn yn unol â’r trefniadau ar gyfer ymgeiswyr etholiadau i’r Senedd, ac yn unol â dull gweithredu ehangach y DU.

3. Mae’r Gorchymyn Eithrio yn cyd-fynd â Rheolau Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2026 (“y Rheolau Diwygio”) sy’n diwygio deddfwriaeth sy’n ymwneud â chynnal etholiadau lleol yng Nghymru i sicrhau bod y rheolau a’r gweithdrefnau ar gyfer yr etholiadau hynny yn gydnaws â newidiadau i bolisi ac yn unol â deddfwriaeth arall yn ymwneud ag etholiadau Cymreig eraill.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

4. Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

5. Caiff Gweinidogion Cymru y pŵer i wneud y Gorchymyn Eithrio o dan baragraff 15(1) o Atodlen 4A i Ddeddf 1983.

6. Yn unol â pharagraff 15(3) o Atodlen 4A i Ddeddf 1983, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â’r Comisiwn Etholiadol cyn i’r Gorchymyn gael ei wneud.

7. Cyflwynir y Gorchymyn hwn i’w osod gerbron y Senedd o dan baragraff 15(2) o Atodlen 4A i Ddeddf 1983 ac mae’n ddarostyngedig i’w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

8. Cyn diwygio Atodlen 4A i Ddeddf 1983, mae dyletswydd statudol i ymgynghori â’r Comisiwn Etholiadol o dan baragraff 15 o Atodlen 4A i Ddeddf 1983.

9. Ymgynghorwyd yn ffurfiol â’r Comisiwn Etholiadol yn unol â Deddf 1983 er mwyn bodloni’r ddyletswydd statudol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

10. Effaith fwriadedig y Gorchymyn Eithrio yw dod â gwariant ymgyrchu mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru yn gydnaws â’r newidiadau diweddar

a wnaed ar gyfer etholiadau i'r Senedd gan Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 ("y Gorchymyn Cynnal Etholiadau") a Rheoliadau Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (Eithriadau ac Amrywio Terfynau Gwariant Ymgyrch) (Cymru) 2025.

11. O ran etholiadau i'r Senedd, gwnaethom rai newidiadau i sicrhau y gellir mynd i dreuliau rhesymol i ddarparu ar gyfer diogelwch personol ymgeiswyr a diogelu eu heiddo, ac y caiff y treuliau hynny eu heithrio o dreuliau ymgyrchu ymgeisydd. Mae angen darn o ddeddfwriaeth ar wahân i wneud yr un newid ar gyfer etholiadau llywodraeth leol.

12. Mae'r newid i etholiadau llywodraeth leol yn ei gwneud yn ofynnol i ddiwygio paragraff 13A o Atodlen 4A i Ddeddf 1983. Bydd y diwygiad yn sicrhau na fydd ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol, yn rhan o'u treuliau etholiadol, yn gorfod cyfrif am dreuliau rhesymol yr eir iddynt wrth ddarparu ar gyfer eu diogelwch personol a diogelu eu heiddo.

13. Dyddiad dod i rym yr Offeryn Statudol fydd 13 Mawrth 2026; fodd bynnag, bydd y ddeddfwriaeth yn dod i rym mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol o 7 Mai 2026 ymlaen.

14. Er nad yw hyn yn bodloni egwyddor Gould, mae'n bwysig bod y newidiadau yn digwydd cyn gynted â phosibl i amddiffyn diogelwch ymgeiswyr. At hynny, mae hwn yn newid syml, gan ddod â rheolau yn gydnaws ag etholiadau eraill yng Nghymru a Lloegr a gellir diweddaru canllawiau yn gyflym. Yn ogystal, nid yw'r diwygiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i wneud unrhyw newidiadau gweinyddol i'r systemau a ddefnyddir i gynnal etholiadau.

## 5. Ymgynghori

15. Rhwng 20 Hydref 2025 a 12 Ionawr 2026, cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos o hyd ar y Gorchymyn Eithrio drafft. Tynnwyd yr ymgynghoriad at sylw cynulleidfa eang o randdeiliaid etholiadol allweddol gan gynnwys Swyddogion Canlyniadau, gweinyddwyr etholiadau, y Comisiwn Etholiadol ac awdurdodau lleol. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn ymdrin â'r Rheolau Diwygio.

16. Ceir dyletswydd statudol o dan baragraff 15(3) o Atodlen 4A i Ddeddf 1983 sy'n nodi bod rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol cyn i'r Gorchymyn gael ei wneud. Anfonwyd llythyr i'r Comisiwn Etholiadol er mwyn bodloni'r gofyniad hwn.

17. Cafwyd cytundeb eang i'r cynigion yn yr ymgynghoriad. Yn sgil yr ymatebion i'r ymgynghoriad, nid ystyriwyd bod unrhyw ddiwygiadau i'r Gorchymyn drafft yn angenrheidiol.

18. Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn Newidiadau i reolau etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru | LLYW.CYMRU

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 1. Yr opsiynau

**Opsiwn 1 –** Busnes fel yr arfer. Byddai rhaid i ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru barhau i gyfrif am dreuliau rhesymol yr eir iddynt ar gyfer diogelwch personol a diogelu eiddo.

**Opsiwn 2 –** Gwneud Gorchymyn Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (Eithrio Treuliau Diogelwch) (Diwygio) (Cymru) 2026.

### 2. Dadansoddi costau a manteision

### Opsiwn 1 – Busnes fel yr arfer

19. Pe bai Opsiwn 1 yn cael ei ddilyn, ni fyddai'n golygu unrhyw newid i'r gofynion cyfrifo presennol ar gyfer treuliau diogelwch ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Ni fyddai hyn yn gydnaws ag etholiadau i'r Senedd ac etholiadau ehangach y DU.

20. Pe bai Opsiwn 1 yn cael ei ddilyn, byddai hyn yn creu anghydraddoldeb o ran ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ac yn peryglu diogelwch a diogeledd ymgeiswyr.

21. Os na wneir dim, gallai hyn leihau yn sylweddol allu ymgeiswyr i ymgyrchu yn yr etholiad hwnnw, sy'n rhan sylfaenol o'r broses ddemocrataidd yng Nghymru.

### Opsiwn 2 – Gwneud Gorchymyn Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (Eithrio Treuliau Diogelwch) (Diwygio) (Cymru) 2026

22. Byddai Opsiwn 2 yn sicrhau na fydd ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol, yn rhan o'u treuliau etholiadol, yn gorfod cyfrif am dreuliau rhesymol yr eir iddynt wrth ddarparu ar gyfer eu diogelwch personol a diogelu eu heiddo. Mae hyn yn unol â'r trefniadau ar gyfer etholiadau i'r Senedd ac etholiadau ehangach y DU.

### Costau

23. Gan fod y Gorchymyn Eithrio yn ymwneud â gwariant a threuliau ymgeiswyr, nad ydynt yn cael eu hariannu gan arian cyhoeddus, nid oes costau ariannol i'r cyhoedd.

### Manteision

24. Y fantais o wneud y ddeddfwriaeth yw ei bod yn hybu diogelwch ymgeiswyr yn ystod ymgyrchoedd etholiadol ac yn sicrhau cysondeb â’r ffordd y caiff treuliau ymgeiswyr eu trin ym mhob etholiad arall.

**Yr opsiwn a ffefrir**

25. Byddai Opsiwn 2 yn sicrhau dull gweithredu cyson ar draws holl etholiadau Cymreig ac etholiadau y DU, gan wella cysondeb a hybu diogelwch ymgeiswyr yn ystod etholiadau.

**Effeithiau eraill**

26. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Integredig llawn o effaith y Gorchymyn Eithrio a’r Rheolau Diwygio cysylltiedig.

27. Mae adran 1 ac adran 8 o Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gorchymyn Eithrio ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

**Asesu’r gystadleuaeth**

28. Ni fydd y darpariaethau yn y Gorchymyn Eithrio yn effeithio ar fusnesau, nac elusennau a/neu’r sector gwirfoddol mewn ffyrdd sy’n codi materion o ran cystadleuaeth. Ni chymhwyswyd y prawf hidlo’r gystadleuaeth. Ni ddisgwylir i’r darpariaethau yn y Gorchymyn Eithrio gael unrhyw effaith ar gystadleuaeth na gosod unrhyw gyfyngiadau ar gyflenwyr newydd na chyflenwyr presennol. Disgwylir mai cyrff cyhoeddus, sydd eisoes yn talu’r costau hyn, fydd yn ysgwyddo’r rhan fwyaf o’r costau sy’n gysylltiedig â’r ddeddfwriaeth. Ni ddisgwylir i’r ddeddfwriaeth gael unrhyw effaith negyddol ar fentrau bach a chanolig yng Nghymru.